OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2024 Rhif 1213 (Cy. 197)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Stryd y Bont, Y Stryd Fawr a Sgwâr Owain Glyndŵr, Aberystwyth, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024

Gwnaed	*22 Tachwedd 2024*
Yn dod i rym	*30 Tachwedd 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd gan y cynhelir digwyddiad perthnasol, sef Parêd y Llusernau a chynnau'r Goleuadau Nadolig, ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Stryd y Bont, Y Stryd Fawr a Sgwâr Owain Glyndŵr, Aberystwyth, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Tachwedd 2024.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(**1**) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994 (p. 11). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu, y gwasanaeth tân neu'r gwasanaeth ambiwlans;

(ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darnau o'r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;

(iii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan un o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad i gefnogi'r digwyddiad perthnasol ac am resymau diogelwch;

ystyr "cyfnod y digwyddiad" ("*event period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 15:00 o'r gloch ar 30 Tachwedd 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar—

(i) y darn o'r gefnffordd o'r enw Stryd y Bont, Aberystwyth sy'n ymestyn o'i chyffordd â Stryd y Frenhines hyd at ei chyffordd â'r Stryd Fawr;

(ii) y darn o'r gefnffordd o'r enw Y Stryd Fawr, Aberystwyth sy'n ymestyn o'i chyffordd â Stryd y Bont a Heol y Wig hyd at ei chyffordd â Stryd y Popty;

(iii) y darn o'r gefnffordd o'r new Sgwâr Owain Glyndŵr sy'n ymestyn o'i chyffordd â Stryd y Popty hyd at ei chyffordd â Ffordd y Môr.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn ei dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 1 diwrnod ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Tachwedd 2024

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru